**Sesiwn 2001-2002 (14)**

**Dydd Iau, 28 Mehefin 2001**

# AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Eitem 1**
**Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Cwestiynau Llafar i Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 3**
**Dadl ar y Loteri yng Nghymru**
*NDM712 Cynnig bod y Cynulliad:*

1. Yn nodi ymdrechion cyson Dosbarthwyr y Loteri yng Nghymru, ac ymdrechion Dosbarthwyr ar lefel y DU sy'n berthnasol i Gymru, gan gyfeirio'n benodol at ddatblygu trefniadau gweithio ar y cyd, mynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol a dosbarthiad daearyddol, cydraddoldeb o ran mynediad a symleiddio'r prosesau ar gyfer gwneud ceisiadau.

2. Mae'r Cynulliad am annog trefniadau i gryfhau ei berthynas â Dosbarthwyr y Loteri yng Nghymru ac ar lefel y DU, er mwyn sicrhau bod polisi yn y dyfodol yn mynd i gyfeiriad sy'n rhoi ystyriaeth ddigonol i ofynion penodol Cymru ac yn ategu amcanion y Cynulliad, gan sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i brosiectau sy'n cael yr effaith fwyaf posibl ar bobl a chymunedau Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol*

(1)+(2)+(3)
(4)+(5)

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru)**

*Ychwanegu fel pwynt 1 newydd a'u hailrifo yn ôl y gofyn:*

1. Yn nodi gyda phryder gynlluniau Llywodraeth y DU i wanhau ymhellach yr egwyddor ychwanegedd, sy'n datgan na ddylai arian y lotri gael ei wario ar swyddogaethau craidd y llywodraeth megis iechyd ac addysg ond yn hytrach ar 'achosion da' nad ydynt fel rheol yn cael cefnogaeth y wlad.

**2. William Graham (Dwyrain De Cymru)**

*Ychwanegu fel pwynt 2 newydd a'u hailrifo yn ôl y gofyn:*

2. Yn nodi gyda phryder yr effaith y bydd y cawl y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud wrth fynd i'r afael ag adnewyddu trwydded gweithredydd y Lotri Genedlaethol yn ei chael ar y rhai sydd am wneud cais am arian lotri yng Nghymru.

**3. William Graham (Dwyrain De Cymru)**

*Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

Yn llwyr gefnogi'r egwyddor y dylai'r lotri fynd ati i hybu'r egwyddorion a amlinellir yn *gwellcymru.com* megis cynhwysiant cymdeithasol, ond yn nodi gyda phryder bod dros draean o arian lotri, o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol yn y pedair blynedd diwethaf, yn awr dan reolaeth weinidogol yn hytrach na'i fod yn cael ei ddyrannu gan asiantaethau annibynnol.

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

Yn galw ar i'r Gweinidog dros Ddiwylliant sicrhau bod y Pwyllgor Diwylliant yn chwarae rhan amlwg yn y gwaith o fonitro polisi dosbarthu arian lotri yng Nghymru a'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni'r amcanion a amlinellir uchod.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

Yn nodi ei siomedigaeth o weld y diffyg cynnydd tuag at sicrhau cyfran fwy o arian lotri yng Nghymru.

**Eitem 4**
**Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar Arallgyfeirio yn yr Economi Wledig**
***NDM711***

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 9.9, yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, "Arallgyfeirio’r Economi Wledig", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2001.

Cliciwch yma i weld Adroddiad

**Eitem 5**
**Dadl Fer**:
*NDM713* **Pauline Jarman (Canol De Cymru); Yr Amcan Cyntaf – Amcan Un**

**Dylai'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm.**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 3 Gorffennaf 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**